ATODLEN 4

DOSBARTHIAD TATWS HADYD

RHAN I

Tatws hadyd y mae modd eu marchnata fel tatws hadyd cyn-sylfaenol

Wrth wneud penderfyniad at ddibenion Atodlen 1, paragraff 1(b), pan fo swyddog awdurdodedig yn penderfynu bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd cyn-sylfaenol, caiff eu dosbarthu fel tatws hadyd o unrhyw un o'r dosbarthiadau a bennir yng ngholofn 1 o dabl 1 pan fo wedi'i fodloni yn sgil archwiliad bod y gofynion a bennir yng ngholofn 2 o ran y dosbarth hwnnw wedi eu bodloni.

Tabl 1

Colofn 1 *Dosbarth*	*Colofn 2* *Gofynion*
TC cyn-sylfaenol	(1) Rhaid i'r tatws hadyd— (a) bod yn deillio o stoc cenhedlol neu o gloron sydd wedi cael eu profi a gyflenwyd gan ffynhonnell sy'n dderbyniol gan y Cynulliad Cenedlaethol ac a gafodd eu tyfu ar uned lle nad oes deunudd o rywogaeth *Solanaceae* na deunydd arall, ac eithrio deunydd sy'n deillio o stoc cenhedlol neu o gloron sydd wedi cael eu profi sy'n dod o ffynhonnell sy'n dderbyniol gan y Cynulliad Cenedlaethol, wedi cael ei dyfu; a (b) bod wedi eu cadw rhag— (i) firysau tatws A, M, S, X, Y, crychni'r dail, firws tatws top mop, firws trwst tybaco a marwoldeb gwythiennol tybaco neu unrhyw firws arall o bwys, (ii) ysgub y gwrachod a phydredd du'r coesyn, (iii) gwyriadau mewn amrywogaeth a math, a (iv) sgrwff yn y pridd
Cyn-sylfaenol 1	(2) Rhaid i'r tatws hadyd— (a) bod yn deillio— (i) o stoc cenhedlol neu o gloron a gyflenwyd gan ffynhonnell sy'n dderbyniol gan y Cynulliad Cenedlaethol ac a gafodd eu tyfu ar uned lle nad

Colofn 1 *Dosbarth*	*Colofn 2* *Gofynion*
	oes deunudd o rywogaeth *Solanaceae* na deunydd arall, ac eithrio deunydd sy'n deillio o stoc cenhedlol neu o gloron sydd wedi cael eu profi sy'n dod o ffynhonnell sy'n dderbyniol gan y Cynulliad Cenedlaethol, wedi cael ei dyfu;
	(ii) o stoc a gafodd ei ddosbarthu fel TC cyn-sylfaenol yn y flwyddyn cyn plannu'r cnwd; neu
	(iii) unrhyw datws hadyd eraill o fath y rhoddodd y Cynulliad Cenedlaethol hysbysiad ysgrifenedig eu bod yn dderbyniol ganddo; a
	(b) bod wedi eu cadw rhag—
	(i) firysau tatws A, M, S, X, Y, crychni'r dail, firws tatws top mop, firws trwst tybaco a marwoldeb gwythiennol tybaco neu unrhyw firws arall o bwys,
	(ii) ysgub y gwrachod a phydredd du'r coesyn,
	(iii) gwyriadau mewn amrywogaeth a math, a
	(iv) sgrwff yn y pridd.
Cyn-sylfaenol 2	(3) Rhaid i'r tatws hadyd—
	(a) bod yn deillio—
	(i) o stoc a gafodd ei ddosbarthu fel cyn-sylfaenol 1 yn y flwyddyn cyn plannu'r cnwd; neu
	(ii) unrhyw datws hadyd eraill o fath y rhoddodd y Cynulliad Cenedlaethol hysbysiad ysgrifenedig eu bod yn dderbyniol ganddo; a
	(b) bod wedi eu cadw rhag—
	(i) firysau tatws A, M, S, X, Y, crychni'r dail, firws tatws top mop, firws trwst tybaco a marwoldeb gwythiennol tybaco neu unrhyw firws arall o bwys,

Colofn 1 *Dosbarth*	*Colofn 2* *Gofynion*
	(ii) ysgub y gwrachod a phydredd du'r coesyn, (iii) gwyriadau mewn amrywogaeth a math, a (iv) sgrwff yn y pridd.
Cyn-sylfaenol 3	(4) Rhaid i'r tatws hadyd— (a) bod yn deillio— (i) o stoc a gafodd ei ddosbarthu fel cyn-sylfaenol 2 yn y flwyddyn cyn plannu'r cnwd; neu (ii) o unrhyw datws hadyd eraill o fath y rhoddodd y Cynulliad Cenedlaethol hysbysiad ysgrifenedig eu bod yn dderbyniol ganddo; a (b) bod wedi eu cadw rhag— (i) firysau tatws A, M, S, X, Y, crychni'r dail, firws tatws top mop, firws trwst tybaco a marwoldeb gwythiennol tybaco neu unrhyw firws arall o bwys, (ii) ysgub y gwrachod a phydredd du'r coesyn, (iii) gwyriadau mewn amrywogaeth a math, a (iv) sgrwff yn y pridd.
Cyn-sylfaenol 4	(5) Rhaid i'r tatws hadyd— (a) bod yn deillio— (i) o stoc a gafodd ei ddosbarthu fel cyn-sylfaenol 3 yn y flwyddyn cyn plannu'r cnwd; neu (ii) o unrhyw datws hadyd eraill o fath y rhoddodd y Cynulliad Cenedlaethol hysbysiad ysgrifenedig eu bod yn dderbyniol ganddo; a (b) bod wedi eu cadw rhag— (i) firysau tatws A, M, S, X, Y, crychni'r dail, firws tatws top mop, firws trwst tybaco a marwoldeb gwythiennol tybaco neu unrhyw firws arall o bwys,

Colofn 1 *Dosbarth*	*Colofn 2* *Gofynion*
	(ii) ysgub y gwrachod a phydredd du'r coesyn, (iii) gwyriadau mewn amrywogaeth a math, a (iv) sgrwff yn y pridd.